OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 905

# Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 2004

## RHAN VI

**Cyllid a Chyfrifon**

### Cyllid

**29.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad dalu Bwrdd CIC a'r Cynghorau y symiau sydd eu hangen ym marn y Cynulliad er mwyn i Fwrdd CIC gyflawni ei swyddogaethau ac i'r Cynghorau gyflawni eu swyddogaethau hwythau o dan y Rheoliadau yn y drefn honno, a bydd yn rhaid talu'r symiau hyn ar yr adegau hynny ac o dan yr amodau hynny y gall y Cynulliad o dro i dro benderfynu arnynt.

(2) Rhaid i Fwrdd CIC gyflwyno i'r Cynulliad ar y ffurf ac erbyn y dyddiad y gall y Cynulliad ofyn amdanynt, yr amcangyfrifon hynny y gall y Cynulliad ofyn amdanynt o'r costau y mae Bwrdd CIC yn disgwyl mynd iddynt yn ystod y blynyddoedd ariannol hynny y gall y Cynulliad eu pennu.

(3) Rhaid i bob Cyngor gyflwyno i Fwrdd CIC ar y ffurf ac erbyn y dyddiadau y gall Bwrdd CIC ofyn amdanynt yr amcangyfrifon hynny y gall y Bwrdd CIC ofyn amdanynt o'r gwariant a ddisgwylir gan bob Cyngor yn ystod y blynyddoedd ariannol hynny y gall Bwrdd CIC eu pennu.

(4) Rhaid i Fwrdd CIC gadarnhau cyfansymiau'r amcangyfrifon a gyflwynir o dan baragraff (3) wedi'u haddasu neu heb eu haddasu, neu'n ddarostyngedig i'r fath amodau ag y gwêl Bwrdd CIC yn dda, a chaiff amrywio'r cadarnhad neu'r amodau ar unrhyw adeg a bydd yn argymell y symiau hynny i'r Cynulliad i'w talu o dan baragraff (1).

(5) Rhaid i wariant Bwrdd CIC a'r Cynghorau beidio â bod yn fwy na'r symiau a gymeradwywyd gan y Cynulliad o dan y rheoliad hwn.

### Cyfrifon

**30.**—(1) Rhaid i Fwrdd CIC a'r Cynghorau baratoi a chadw'r cyfrifon hynny y gall y Cynulliad ofyn amdanynt a hynny mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol a rhaid i'r cyfrifon fod yn adlewyrchiad gwir a theg o unrhyw incwm a gwariant a llif arian mewn cysylltiad â Bwrdd CIC a'r Cynghorau.

(2) Rhaid i'r Cynghorau a Bwrdd CIC anfon copi o'u cyfrifon blynyddol eu hunain mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol i'r Cynulliad cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.